

Taliadau Tai Dewisol



Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Arweiniad i Daliadau Tai Dewisol

Mae'r daflen hon yn esbonio Taliadau Tai Dewisol. Mae'r rheolau'n rhai cenedlaethol a'r un fath ym mha ardal bynnag yr ydych yn byw ynddi. Os nad ydych yn gwybod pa Gyngor sy'n gyfrifol am eich ardal chi, bydd hynny wedi'i nodi ar eich bil Treth Cyngor.

Beth yw Taliadau Tai Dewisol (DHPs)?

Taliadau ychwanegol yw DHPs, ar gyfer cwsmeriaid y mae angen mwy o help arnynt gyda'u costau tai, fel arfer pan fo bwlch rhwng eu rhent a'u dyfarniad budd-dal.

Gall DHPs helpu hefyd gyda chostau eraill megis:

- Blaendaliadau rhent,
- Rhent ymlaen llaw,
- Costau symud os bydd angen i chi symud tŷ.

Caiff y Cyngor swm o arian sydd i'w wario yn flynyddol ar DHPs ac ni all wario mwy na'r terfyn a bennir gan y Llywodraeth.

Ni ellir rhoi DHPs am y canlynol:

- Treth y Cyngor
- Taliadau gwasanaeth nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan Fudd-dal Tai neu costau tai Credyd Cynhwysol.
- Ôl-ddyledion rhent sydd heb eu talu
- Pan gaiff eich taliadau Budd-dal Tai eu hatal
- Pa na fydd gennych hawl i dderbyn cymaint o arian yn sgil gordaliad

Sut galla i wneud cais am DHP?

Ni allwch wneud cais am DHP ond pan fo gennych hawl gyfredol i dderbyn Budd-dal Tai neu costau tai Credyd Cynhwysol..

Sut byddwch chi'n penderfynu a gaf i DHP?

Rydym yn ystyried y canlynol wrth benderfynu:

- Eich holl incwm
- A oes gennych gynilion
- A fedr unrhyw un arall yn y tŷ roi cymorth ariannol
- A oes gennych fenthyciadau neu ddyledion i'w talu
- A fyddai modd i chi ad-drefnu'ch cyllid i helpu'r sefyllfa
- A oes amgylchiadau arbennig fel salwch neu anabledd yn perthyn i chi neu'ch teulu
- A ydych chi eich hun wedi ceisio gwella'r sefyllfa.

Gofynnir i chi am lawer o wybodaeth, a gall fod angen i chi ddangos tystiolaeth fel datganiadau banc neu brawf o fenthyciadau. Gellir gofyn hefyd i chi alw i mewn i drafod eich cais yn fanylach.

Byddwn yn penderfynu ar eich cais unwaith y byddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol. Wedyn byddwch yn derbyn llythyr yn nodi'r dyfarniad. Os dyfarnwyd DHP i chi, cewch wybod yn y llythyr faint yw'r swm a chyfnod y dyfarniad.

Faint gaf i ac am ba hyd?

Nid oes gwarant y cewch chi daliad o gwbl, a bydd faint a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Edrychir ar bob achos yn unigol a chaiff ei dalu am gyfnodau gwahanol.

Mae'n bosibl y byddwch yn medru ailgyflwyno cais unwaith bydd y dyfarniad DHP wedi dod i ben.

Gall fod amodau ynghlwm wrth ddyfarniadau, ac os felly, gellir cymryd y rhain i ystyriaeth os cyflwynir cais o'r newydd.

Sylwer, yn achos Budd-dal Tai nad yw'n ddigon ar gyfer eich taliadau, ni all y swm a ddyfarnir fod yn fwy na'ch rhent llawn ar ôl tynnu ohono symiau am wasanaethau fel trydan neu ddŵr,

Sut byddwch chi'n talu'r DHP os bydd fy nghais yn llwyddiannus?

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd DHP i gau bwlch ariannol yn cael ei dalu fel rheol gydag unrhyw Fudd-dal Tai a gewch, er nad yw DHPs yn daliadau budd-dal.

Beth ddylwn i ei wneud os na fydda i'n cytuno â'r penderfyniad ynghylch fy nghais am

Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad naill ai i beidio â dyfarnu DHP, y swm a roddwyd neu'r cyfnod, gallwch ofyn am adolygu'r penderfyniad.

Ysgrifennwch at yr Adain Budd-daliadau Tai o fewn un mis calendr i ddyddiad llythyr y penderfyniad, gan ddweud wrthym pam nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad ac yn darparu rhagor o wybodaeth i gefnogi'r cais hwn.

Ni allwch apelio i'r Gwasanaeth Tribiwnlys os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad i beidio â chaniatáu Taliadau Tai Dewisol i chi.

Beth os bydd fy amgylchiadau'n newid?

Os bydd eich amgylchiadau'n newid, rhaid i chi roi gwybod i'r Adain Budd-daliadau Tai, ar unwaith, trwy lythyr. Yna edrychir eto ar eich DHP i weld a oes angen newid y dyfarniad.

Os yw'r newid yn golygu bod eich dyfarniad DHP yn cael ei leihau, gallai fod rhaid i chi dalu'n ôl gyfran neu'r cyfan o'r DHP a dalwyd i chi eisoes.

Ble galla i gael rhagor o gyngor?

Os oes angen rhagor o gymorth neu gyngor arnoch chi, cysylltwch â'r:

Adain Budd-Daliadau Tai
3ydd Llawr
Tŷ Elwyn
Llanelli

Ffôn: 01554 742100

E-bost: budd.daliadau@sirgar.gov.uk

Fel arall gallwch gysylltu â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol